Fy Iechyd Ar-lein
My Health Online
GIG CYMRU NHS WALES | Gwasanaeth Gwybodeg Informatics Service

# Canllaw Defnyddiwr i Gleifion

## Creu Cyfrif Fy Iechyd Ar-lein

Cyn y gallwch greu cyfrif Fy Iechyd Ar-lein mae'n rhaid i chi gofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn yn eich meddygfa deulu. Bydd eich meddygfa yn rhoi llythyr cofrestru i chi a fydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol.

- Cyfeiriad Gwe
- Pin
- Rhif Adnabod y Feddygfa
- Rhif Adnabod Mynediad
- Rhif GIG

**Sylwch: Ni allwch greu cyfrif heb lythyr cofrestru.**

1. Yn eich porwr rhyngrwyd, teipiwch neu gopïo a gludo, y cyfeiriad gwe canlynol: www.myhealthonline-emisweb.wales.nhs.uk
2. Rhowch eich dewis iaith – English / Cymraeg
3. Cliciwch ar "Mae defnyddwyr newydd yn creu eich cyfrif yma"




4. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar eich llythyr cofrestru, llenwch yr adrannau gofynnol.

**Sgrin 1**




**Sgrin 2**



**Sgrin 3**




5. Mae eich cyfrif Fy Iechyd Ar-lein yn weithredol nawr. Gallwch fewngofnodi a mynd ymlaen i:
    a. Drefnu neu ganslo apwyntiadau.
    b. Archebu presgripsiynau amlroddadwy.

# Mewngofnodi a Defnyddio Fy Iechyd Ar-lein

1. Yn eich porwr rhyngrwyd, teipiwch neu gopïo a gludo, y cyfeiriad gwe canlynol: [www.myhealthonline-emisweb.wales.nhs.uk](http://www.myhealthonline-emisweb.wales.nhs.uk)
2. Rhowch eich dewis iaith – English / Cymraeg
3. Rhowch dic yn ‘Mae gen i enw defrnyddiwr’ a chwblhewch y 2 flwch mewngofnodi



4. Byddwch nawr yn gweld eich hafan ar gyfer gwasanaethau ar-lein, oddi yma gallwch
   a. Gweld / trefnu / canslo apwyntiadau
   b. Archebu presgripsiynau amlroddadwy
   c. Newid eich cyfeiriad e-bost / cyfrinair/enw defnyddiwr/cyfeiriad/manylion cyswllt




## Trefnu Apwyntiadau

O dudalen flaen Fy Iechyd Ar-lein, cliciwch ar Book an Appointment, a dewiswch apwyntiad o'r dewisiadau a ddangosir ar y sgrin.

1. I drefnu apwyntiad dewiswch y dyddiad, meddyg teulu ac amser sydd orau gennych a chliciwch ar y sgwâr amser gwyrdd.

2. Cadarnhewch eich bwciad drwy glicio ar y botwm 'Book' glas ar waelod y dudalen ac eir â chi i dudalen a fydd yn cadarnhau eich bwciad.

## Canslo Apwyntiadau

Mae'n bwysig canslo unrhyw apwyntiadau diangen. Gallwch ganslo apwyntiadau naill ai drwy ffonio'r feddygfa, neu ar-lein.

1. O’r sgrin hafan apwyntiadau, dewiswch yr apwyntiad yr ydych am ei ganslo a chliciwch y blwch ‘Canslo’ coch. Yna gofynnir i chi gadarnhau’r canslad a gallwch roi rheswm dros ganslo os credwch fod hynny’n angenrheidiol. Bydd y sgrin wedyn yn cadarnhau eich bod wedi canslo apwyntiad.




## Eich ail feddyginiaeth

O dudalen flaen Fy Iechyd Ar-lein, gallwch archebu eich meddyginiaeth amlroddadwy, gweler eich presgripsiynau amlroddadwy ac unrhyw geisiadau sydd eisoes wedi’u gwneud.

1. I archebu eich meddyginiaeth amlroddadwy, cliciwch ar y botwm ‘Gwneud cais’ ac eir â chi at sgrin sydd â rhestr o’r holl feddyginiaeth sydd ar gael i chi.

2. Rhowch dic yn y blwch i’r chwith i bob eitem sydd ei hangen arnoch, ac yna cliciwch ‘Cyflwyno’r Cais’ ar waelod y dudalen.

3. Gallwch hefyd anfon neges fer i’r feddygfa drwy deipio yn y blwch neges ar waelod y dudalen



4. Pan fyddwch wedi cyflwyno’ch cais, eir â chi at sgrin a fydd yn cadarnhau eich cais, yn newid y cais neu’n canslo eich cais. Cliciwch ar y botwm perthnasol.

5. Os ydych chi’n cadarnhau eich cais byddwch yn mynd at sgrin sy’n dweud ’Prescription Request Confirmed’.

6. Drwy fynd yn ôl i’r hafan byddwch yn gallu gweld statws eich cais.

   Requested - disgwyl i’r feddygfa ei brosesu.
   Rejected - cysylltwch â’ch meddygfa i gael y rheswm.
   Cancelled - cysylltwch â’ch meddygfa i gael y rheswm.
   Issued - mae'r cais wedi’i gymeradwyo. Caniatewch hyd at 2 ddiwrnod gwaith cyn ei gasglu. Gwiriwch gyda’ch meddygfa am amseroedd casglu penodol

## Diweddaru eich Manylion Personol

Gallwch newid eich cyfrinair a’ch enw defnyddiwr o’r sgrin hafan drwy glicio ar y botwm perthnasol.

Rydych hefyd yn gallu diweddaru eich manylion o’r sgrin hafan drwy glicio ar y botwm ‘Diweddaru eich manylion’. Bydd hyn yn mynd â chi wedyn at sgrin lle gallwch ddiweddaru eich cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost.



# Datrys problemau

1. Wrth gofrestru , mae'r system yn datgan eich manylion yn anghywir. Ceisiwch eto, a chopi y manylion yn union fel y maent ar y llythyr cofrestru ddarperir gan eich practis. Os ydych yn dal i brofi problem , cysylltwch hefo Iechyd Cymru ar: amb_myhealthonline@wales.nhs.uk a rhoi eich cerdyn adnabod ymarfer y practis, eich enw llawn a'r neges gwall rydych yn ei gael.

2. Ydych yn ceisio ei logio i mewn , ond mae'r system yn rhoi neges gwall i chi - cysylltwch hefo Iechyd Cymru ar: amb_myhealthonline@wales.nhs.uk a rhoi eich cerdyn adnabod ymarfer y practis, eich enw llawn a'r neges gwall rydych yn ei gael.